Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Chwefror 9, 2016 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Gethin Williams, John Hughes, Janet Edwards, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Carwyn Evans a Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins a Henry Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Eirlys Roberts.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 12, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 12, 2016

Eitem 10.c. Llythyr (19/1/2016) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod maent yn gwneud ymchwiliad i'r mater sydd yn Halfway House, Bontddu.

Eitem 10.a. Lythyr (27 Ionawr, 2016) oddi wth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod sylw yn cael ei roi i gwterydd a sianeli yn ardal Bontddu.

5. Materion Ariannol

a. Ceisiadau am gymorth ariannol:

Dawns Gymuned ar Gyfer Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn, Ambiwlans Awyr Cymru, Shelter Cymru, Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Marie Curie, Y Groes Goch Brydeinig, Urdd Gobaith Cymru (taith Patagonia), Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Sir Fflint 2016).

Mewn llythyr (6 Ionawr 2014) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(1) ac (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2015-16. Maent yn rhoi gwybod gall cyngor cymuned wario yn 2015-16 hyd at uchafswm o £7.36, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.36 x 378 = £2,782.08.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a Môn - £100
NSPCC - £50
Gisda - £50
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru - £50
Sioe Frenhinol Cymru - Pwyllgor Apêl Cylch Dolgellau - £50
Marie Curie Cancer Care - £50
Age Cymru Gwynedd Môn - £50
Tŷ Gobaith - £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50
Ysgol Feithrin Dolgellau - £50
Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch - £50
Ambiwlans Awyr Cymru - £300
Neuadd Bentref Bontddu: - £600
Neuadd Bentref Llanelltyd - £600
Ysgol Gynradd Llanelltyd - £650
Cyfanswm: £2,750

Wedi trafod rhoi rhodd i Ysgol Gynradd Bontddu penderfynwyd rhoi dim rhodd oherwydd mae'r ysgol wedi cau, nid yw'r ysgol wedi cyflwyno siec rhoddwyd blwyddyn ddiwethaf ac nid oes sicrwydd os mae Cyfeillion yr ysgol ar fod.

b. Llythyr (27 Ionawr 2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru o fis Ebrill 2016. Tâl Aelodaeth yw £82.

Penderfynwyd talu'r aelodaeth.

c. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(1) ac (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2016-17. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 £7.42, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.42 x 378 = £2,804.76.

ch. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth The Pension Regulator. O dan Ddeddf Pensiynau 2008, rhaid i bob cyflogwr, ac mae hyn yn cynnwys ni, roi eu staff mewn cynllun pensiwn a thalu i mewn iddo h.y. 'Cofrestru awtomatig'. Bydd ein dyletswyddau yn dechrau ar Chwefror 1, 2017.

Penderfynwyd anfon y manylion ymlaen i ein cyfrifydd E.W. Owen a'i Chwmni.

d. Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2016: £8,783.43.

6. Mynwent Llanelltyd

Llofnod: Dyddiad:

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/65/124C. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Creu compownd storio dros dro ar gyfer ail wampio'r ysgol. Tir ger Cysgod y Glyn, Llanelltyd.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth - Cyfarfodydd Cymunedol. Maent yn rhoi gwybod bydd cyfarfod i drafod dyfodol gofal iechyd yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r cyfarfod yn Neuadd WI, Blaenau Ffestiniog (lle agosaf) ar Chwefror 2 am 6.00yp.

b. E-bost (20/1/2016) oddi wrth Gethin Williams yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd yn angen aelod annibynnol ar eu Pwyllgor Safonau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Copi o Newyddlen - Dalgylch y Gader, Ionawr 2016 oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd. Mae Mrs Jano Owen wedi ei phenodi fel Pennaeth i arwain yr ysgol newydd yn nalgylch Y Gader. Ei gwaith cyntaf bydd llunio strwythur staffio newydd gyda'r Llywodraethwyr. Mae newidiadau yn cael ei wneud yn Ysgolion Cynradd Dolgellau, Llanelltyd a Rhydymain.

ch. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Siôn Emlyn Williams-Jones, Drws-y Nant. Mae yn rhan o grŵp Urdd Gobaith Cymru fydd yn mynd i Patagonia ym mis Hydref 2016. Yno mi fydd yn gwneud pob math o waith gwirfoddol. Mae angen cymorth ariannol at y prosiect.

d. Llythyr ateb (Ionawr 25, 2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gwaith ysgubo dail ar ffordd Cwm Hirgwm ar eu rhaglen. (Ateb i Eitem 10.a., Cofnodion Tachwedd 10, 2015).

e. Llythyr (4/2/2016) oddi wrth Un Llais Cymru gan gynnwys:

a. Rhybudd yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar Chwefror 24, 2016 am 7.00yh. Amgáu mae agenda'r cyfarfod.

b. Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd oedd ar Tachwedd 25, 2015.

c. Ateb i gwestiwn beth yw'r cynllun i gynghorau tref / cymuned cymryd drosodd cyfrifoldeb biniau halen.

ch. Adroddiad y Grŵp Cyfeiriol Budd Ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

d. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llanfair y Muallt ar Rhagfyr 4, 2015.

f. Lythyr (Chwefror 2016) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yn gofyn am gymorth ariannol tuag at Eisteddfod yr Urdd Sir Fflint 2016.

g. Llythyr (6 Chwefror 2016) oddi wrth Cyngor Tref Porthmadog. Mae Swyddfa Dreth Incwm yn Nhŷ Moelwyn, Porthmadog yn cau gyda cholled o dros ugain o swyddi, a'r swyddi yn symud i Gaerdydd. Oherwydd hyn mae'r Cyngor wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus dydd Sadwrn Chwefror 20, 2016 yn Y Ganolfan Gymdeithasol, Porthmadog am 11.00 yb. Amgáu mae posteri i roi gwybod am y cyfarfod

Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Tref Porthmadog mi fydd yn golled i'r ardal heb y swyddfa treth incwm Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn Nhŷ Moelwyn, Porthmadog. Mae canmoliaeth fawr am y gwaith sydd yn cael ei wneud yno yn enwedig y gwaith sydd yn cael ei roi trwy'r iaith Gymraeg, ac mae'n debygol bod y gwasanaeth yma yn cael ei roi i Gymru gyfan. Mae'r Cyngor yn cefnogi Cyngor Tref Porthmadog yn eu ymdrech i sicrhau parhad y swyddi yn Nhŷ Moelwyn ac i gael swyddi newydd yno.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae Cyngor Gwynedd yn mynd trwy'r broses i arbed £5m yn eu gwariant ac mi fydd hyn yn golygu newidiadau i wasanaethau mae'r Cyngor yn ei roi. Tydi'r proses ddim yn un bleserus.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i BT ac Ofcom am drafferthion sydd yn Cwm Mynach gyda gwasanaeth ffon. Mae'n cymryd BT amser maith i drwsio llinell sydd wedi torri oherwydd fel enghraifft goeden yn disgyn ar y llinell. Mae'n cymryd dros dair wythnos i dechnegydd ddod i drwsio'r llinell a'r gwaith trwsio sy'n cael ei wneud ddim yn waith parhaol ond gwaith dros dro. Mae hyn yn annerbyniol i breswylwyr yr ardal ac yn enwedig i breswylwyr sydd mewn llefydd anghysbell fel Fferm Cwm Mynach Isaf sydd ar hyn o bryd yn dioddef heb gyswllt ffon.